# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

11.10.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
*Dear Parent / Guardian,*

Mae wythnos arall wedi gwibio heibio gyda'r uchafbwyntiau yn niferus! Cofiwch am ein proffil newydd ar Instagram.
*Another week has flown by and the highlights are numerous! Remember about our new profile on Instagram.*




Cofiwch hefyd am stondin y CRhA heno yn gwerthu dillad Calan Gaeaf! Mae safon y dillad yn wych!
*Remember about the PTA's pre-loved halloween clothes stall tonight. The standard of the clothes is excellent.*

**Blwyddyn 1 a 2: Sain Ffagan / St Fagans**

Aeth blwyddyn 1 a 2 yn llawn cyffro i Sain Ffagan dydd Mercher. Mwynheuon nhw grwydro trwy dai Rhyd y Car gan weld sut mae cartrefi wedi newid trwy'r degawdau. Daethon nhw gyd yn ôl i'r ysgol yn llawn straeon am yr hyn roedden nhw wedi eu gweld.

*Years 1 and 2 were full of excitement as they went to St Fagans on Wednesday. They enjoyed walking around Rhyd y Car to see how homes have changed through the years. They came back to school full of stories of what they had seen.*

**Cogurdd**





Bu 19 o gogyddion dawnus yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd yr wythnos hon. Y dasg oedd paratoi wrap oer - roedd wrap hwyaden, wrap eog, wrap bacwn a chyw iâr, feta a llysiau di-ri! Bethan Williams o flwyddyn 6 oedd Cogurdd Ysgol Pencae eleni. Pob lwc iddi wrth gystadlu yng nghystadleuaeth rhanbarth Caerdydd.

Diolch i Mrs Haf Hayes am feirniadu'r rownd.

*19 talented chefs were competing in the Cogurdd competition this week. This year, they had to prepare a cold wrap. We had duck wraps, salmon wraps, chicken and bacon wraps, feta and veg wraps to name but a few. Bethan Williams from year 6 was the Cogurdd winner this year and she will now go on to compete in the Cardiff round. Pob lwc Bethan!*

*Diolch to Mrs Haf Hayes for judging the round.*

**Casgliad Diolchgarwch / Harvest Collection**




Diolch o galon i bawb a wnaeth gyfrannu at gasgliad diolchgarwch yr ysgol er budd Banc Bwyd Caerdydd. Roedd y llwyfan yn orlawn a chasglwyd digon er mwyn helpu 17 person am dridiau. DIOLCH!

*Diolch to everyone who contributed to our harvest collection in aid of Cardiff Food Bank. The stage was filled and we donated enough food to feed 17 people for 3 days. DIOLCH!*

**Cerddorfa Clwstwr / Cluster Orchestra**

Aeth cerddorion o flynyddoedd 5 a 6 draw i Ysgol Glantaf i berfformio gyda Cherddorfa clwstwr Ysgol Glantaf. Braf iawn oedd gweld eu hyder yn datblygu a gweld eu balchder wrth berfformio yn y cyngerdd i'w rhieni ar ddiwedd y dydd.

*Musicians from years 5 and 6 went over to Glantaf to perform with Glantaf's Cluster Orchestra. It was excellent to see their confidence grow and their pride as they performed for their families in a concert at the end of the day.*

**Blwyddyn 4 a 5: Jambori'r Urdd**

Mae blwyddyn 4 a 5 wedi mynd i Jamborir Urdd bore 'ma! Maen nhw am forio canu'r clasuron, Aderyn Melyn, Franz o Wlad Awstria, Canu Roc a Rol a Mae siarad Cymraeg fel majic gyda'r enwog Martyn Geraint!

*Years 4 and 5 have gone to the Urdd's Jambori this morning! They will be singing Welsh classics such as Aderyn Melyn, Franz o Wlad Awstria, Canu Roc a Rol and Mae Siarad Cymraeg fel majic, with the Welsh legend, Matrin Geraint!*

**Clybiau / *Clubs***

Bydd dim clwb canu, Pêl-rwyd na phêl-droed tan ar ôl hanner tymor gan fod nosweithiau rhieni wythnos nesaf a Llangrannog yr wythnos ganlynol.

*There won't be singing club, netball or football until after half term as there's parents' evening next week and many staff are in / going to Llangrannog the following week.*

| | ***Dydd Gwener Friday*** |
|---|---|
| ***12.45 - 13.15*** | ***Bl3-6***<br>Clwb Chwaraeon Urdd<br>Urdd Sports Club<br><br>archebu lle / book a place |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend*,

Siwan Dafydd

| **Mis Hydref**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis Hydref**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Hydref**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Beth am ddweud Bore Da a Nos | Dylech chi fod yn 13 mlwydd oed | Eich hawl i enw a chenedligrwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Da yn Gymraeg adref.<br><br>*How about saying Bore Da (good morning) and Nos Da (Good night) in the house.* | er mwyn defnyddio Whatsapp.<br><br>*You should be 13 years old to use WhatsApp.* | *Your right to a name and nationality.* |

| Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links: | | |
|---|---|---|
| Ffurflen Meddyginiaeth / *Medicine Form* | | |
| Ffurflen Gwyliau / *Holiday Form* | | |
| Clwb Carco | | |
| Gwaith cartref / Home Work | | bit.ly/gwaithcartrefPC |

| **DYDDIADUR YR YSGOL**<br>**SCHOOL DIARY**<br>**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**<br>**Here are key dates and more information will be shared nearer the time** | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date** | **Digwyddiad / Event** |
| **15.10.24** | **Casgliad dillad Rags to Riches** - helpwch yr ysgol i wneud arian trwy fydn trwy eich dillad a chael gwared o'r pethau dydych chi ddim bellach yn eu gwisgo. Dewch a nhw i'r ysgol ar y dyddiad yma a byddwn ni yn eu cyfrannu i gynllun Rags to Riches.<br>***Rags to Riches Collection*** *- help the school make money by having a clothes clear out, bring them to school on this date and we can donate them to Rags to Riches.* |
| **15.10.24** | Nosweithiau Rhieni ar-lein<br>Online Parents Evening |
| **16.10.24`** | Nosweithiau Rhieni wyneb yn wyneb<br>Face to face Parents Evening |
| **18.10.24** | Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth - pawb i wisgo COCH<br>Show Rasicm the Red card - Everyone to wear RED |
| **21.10.24 - 25.10.24** | **Bl6:** Llangrannog |
| **22.10.24** | **PTA: Disgo Bw Bwgi BW Disco**<br>**4.30 - 5.30:** Reception, year 1 and 2 |

| | |
|---|---|
| | **5.45 - 7.00:** Bl3, 4 and 5 |
| **27.10.24** | **Bl4:** Cyngerdd PBuzz yn Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, Caerdydd<br>PBuzz Concert in the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff |
| **28.10.24 - 1.11.24** | Hanner Tymor / Half Term |
| **5.11.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **14.11.24** | **CRhA / PTA:** Sinema Pencae Cinema |
| **18.11.24** | **Bl6:** Gwylio Sioe Ysgol Glantaf<br>Watching Ysgol Glantaf's Show |
| **18.11.24** | **Bl6:** Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd<br>Deadline for Secondary School Applications |
| **22.11.24** | **CRHA / PTA:** Stondin Gwisgoedd Nadoligaidd Ail Law (iard)<br>Pre-loved Christmas Clothes Stall (yard) |
| **26.11.24** | **Bl6: Trip Crucial Crew**<br>**Crucial Crew Trip** |
| **3.12.24**<br>**5.12.24** | **Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:** Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen<br>**Reception, year 1 and 2:** Foundation Learning Christmas Show |
| **5.12.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **6.12.24** | **Dros 7:** ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan<br>**Over 7's**: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| **10.12.24** | **Bl1 a 2:** Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch<br>Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| **13.12.24** | **Ffair Nadolig / Christmas Fair**<br>Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / *On School grounds straight after school* |

| | |
|---|---|
| **18.12.24** | **Bl3-6:** Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb<br>Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| **20.12.24** | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term<br>**23.12.24 - 6.1.25:** Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| **6.1.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **7.1.25** | Disgyblion nôl yn yr ysgol<br>Pupils back in school |
| **3.2.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **24.2.25 - 28.2.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **17.3.25 - 21.3.24** | **Bl5:** Gwersi Seiclo<br>Cycling Lessons |
| **9.4.25 - 11.4.25** | **Bl4:** Maes y Fron<br>Call of the Wild |
| **11.4.24** | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term<br>**14.4.25 - 25.4.25:** Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| **26.5.25 - 30.5.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **2.6.24 - 3.6.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |
| **9.6.25 - 20.6.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **18.7.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.7.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |